



YMUNWCH Â NI

DIOGELWCH TÂN I FUSNESAU

SWYDDOG CYMORTH DIOGELWCH TÂN

PECYN GWYBODAETH I

YMGEISWYR



**Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru**

**South Wales
Fire and Rescue Service**

RAISING AWARENESS - REDUCING RISK

PWY YDYM NI

“I WNEUD DE CYMRU'N DDIOGELACH, TRWY LEIHOU RISG”

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd sy'n gyrru ac yn cymell ein pobl i wneud de Cymru'n fwy diogel, drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gofalu am y 10 Awdurdod Unedol sy'n creu ein hardal amrywiaethol trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau rheng flaen eraill

Rydym yn cyflogi tua 1700 o bobl ar draws De Cymru mewn cymysgedd o rolau Gweithredol a Chorfforaethol, gyda'r rhan fwyaf o'n staff corfforaethol wedi'u lleoli yn ein pencadlys yn Llantrisant.

Cefnogir y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Staff Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nifer o dimau, sy'n cyflawni rolau gweinyddol a thechnegol. Mae Staff Gweithredol a Chorfforaethol yn cydweithio'n agos i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gymunedau De Cymru

Mae Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch yn flaenoriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae gennym ymrwymiad i ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

PROFFIL SWYDD

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 25/04/2025 12 hanner dydd

Mae'r cyfle uchod wedi codi o fewn ein Hadran Diogelwch Tân a leolwyd ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth weinyddol a chymorth i'r Rheolwyr Diogelwch Tân a'r Timau Archwilio Diogelwch Tân wrth gynnal gorfodaeth Diogelwch Tân a mentrau lleihau risg eraill. Mae gwybodaeth am Ddeddfwriaeth Diogelwch Tân a gwybodaeth ymarferol o Becynnau Cymwysiadau Microsoft Office (365, Word, Excel) yn ofniad hanfodol o'r rôl.

Mae'r swydd yn cynnwys waith 37 awr pob wythnos. Mae Cynllun Oriau Gwaith Hyblyg mewn grym.

I wneud cais am y swydd hon, cyflwynwch ddogfen llunio rhestr fer wedi'i chwblhau.

Gwahoddir ceisiadau gan weithwyr presennol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sydd â phrofiad a chymwysterau addas i fodloni'r fanyleb person atodedig.

- Cytundeb: 12 month FTC
- Gradd: 7
- Cyflog: £29,093 - £30,060
- Dyddiad cau: 25/04/2025

SWYDD-DDISGRIFIAD

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

Dylech chi gyflwyno eich cais erbyn Canol Dydd 25/04/2025

Cynorthwyo Rheolwr y Tîm Cymorth Tân i Fusnesau i roi strategaeth diogelwch tân a pholisi gweinyddol ar waith.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

1. Darparu cefnogaeth a chymorth i Dimau Archwilio i gyflawni mentrau diogelwch tân a lleihau risg gan gysylltu â Swyddogion Archwilio.
2. Darparu cefnogaeth a chymorth i'r Tîm Cydymffurfiaeth wrth gasglu a pharatoi dogfennau erlyn a sicrhau y cedwir cyfrinachedd wrth ymdrin â gwybodaeth sensitif.
3. Darparu cefnogaeth a chymorth i'r Tîm Ymchwilio Tân wrth drin a phrosesu dogfennau a ffotograffau sensitif gan sicrhau cyfrinachedd bob amser.
4. Darparu cefnogaeth a chymorth i'r Tîm Gwerthuso Risg trwy flaenoriaethu wrth ddyrannu gwaith
5. Cefnogi a chynnal sicrwydd ansawdd o fewn yr adran gan nodi tueddiadau mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Lleol.
6. Gweithredu, rheoli a chynorthwyo i ddatblygu'r gweithdrefnau gweinyddol sy'n ymwneud â phrosesu gwaith archwilio a gorfodi diogelwch tân yn unol â'r polisi a nodwyd. Darparu adborth adeiladol ar weithdrefnau.
7. Prosesu e-byst ac ymholiadau ffôn sy'n cyrraedd yn ddyddiol, gan nodi a blaenoriaethu materion brys.
8. Gweithredu, monitro a diweddarau'r rhaglen arolygu, cronfeydd data diogelwch tân a gweithdrefnau cysylltiedig yn unol â'r polisi a nodwyd.

- 11.9. Ymchwilio a chasglu gwybodaeth briodol mewn perthynas â'r rhaglen arolygu ar sail risg a champau gweithredu yn ôl yr angen.
12. Cynorthwyo i gyfnewid data rhwng adrannau sy'n nodi safleoedd risg uwch.
13. Blaenoriaethu a dyrannu gwaith i'r Tîm Archwilio.
14. Sicrhau bod y data cywir a chywir yn cael ei brosesu i'r System Gwybodaeth Rheoli Diogelwch Tân.
15. Sicrhau bod y system ffeilio diogelwch tân electronig yn cael ei rheoli a'i chynnal yn effeithiol.
16. Cynnal a diweddarau safle Mewnwyd Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau.
17. Cynnal a diweddarau'r gofrestr Hysbysiadau Cyhoeddus ar wefan y gwasanaethau yn unol â Deddf Gwybodaeth Amgylchedd a Diogelwch 1988.
18. Casglu gwybodaeth i gynorthwyo gyda chasglu ystadegau diogelwch tân.
19. I gyfranogi mewn gweithgorau a chyfarfodydd rhyngadrannol, corfforaethol ac allanol yn ôl cyfarwyddyd, ac i gysylltu ag adrannau, cyrff cyhoeddus a chyrrff a sefydliadau allanol eraill yn ôl y gofyn neu'r angen. Cymryd cofnodion cyfarfodydd.
20. Cynnal cyfrinachedd bob amser mewn perthynas â deddfwriaeth GDPR.

Yn ychwanegol at y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod, bydd gofyn i ddeiliad y swydd:

1. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesuroi â'u gradd a'u swydd.
2. Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
3. Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
4. Cymhwyso egwyddorion Gweithdrefn Urddas yn y Gweithle Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth wrth gyflawni'u dyletswyddau.
5. Amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl rhag niwed, gan adrodd unrhyw bryderon diogelu wrth ddefnyddio Gweithdrefn Ddiogelu'r Gwasanaeth.
6. Ufuddhau i Ddeddfwriaeth a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a chymryd gofal rhesymol mewn perthynas â'u hiechyd a diogelwch eich hunan ac eraill.

Y FANYLEB PERSON

HANFODOL

- ✓ Gwybodaeth am Ddeddfwriaeth Diogelwch Tân a gwaith cysylltiedig
- ✓ Profiad o becynnau Microsoft Office e.e. Outlook, Word, Excel, Office 365,
- ✓ Profiad o weithio mewn rôl weinyddol
- ✓ Y gallu i anwesu a chynnig gwerth i amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa
- ✓ Bod yn rhagweithiol wrth gefnogi newid, gyda'r i addasu dulliau i gwrdd â gofynion newidiol
- ✓ Y gallu i arwain, ymroi ac ysgogi eraill o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r Gymuned ill dau
- ✓ Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd
- ✓ Yr ymrwymiad i a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion a thimau, i wella effeithiolrwydd gweithredol
- ✓ Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol.
- ✓ Y gallu i arwain eraill i gyflawni rhagoriaeth drwy sefydlu, cynnal a rheoli anghenion perfformiad.

DYMUNOL

- ✓ Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg

Y BROSES YMGEISIO

Dylai ymgeiswyr lenwi ein ffurflen tystiolaeth llunio rhestr fer.
Dylai hwn fynd i'r afael â'r cwestiynau isod gydag ymateb nad yw'n fwy na 500 gair fesul cwestiwn (Uchafswm 2000 Gair)

Cwestiwn 1: Gwybodaeth am Ddeddfwriaeth Diogelwch Tân a gwaith cysylltiedig

Cwestiwn 2: Profiad o becynnau Microsoft Office e.e. Outlook, Word, Excel, Office 365

Cwestiwn 3: Profiad o weithio mewn rôl weinyddol

Cwestiwn 4: Bod yn rhagweithiol wrth gefnogi newid, gyda'r i addasu dulliau i gwrdd â gofynion newidiol

Cwestiwn 5: Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol.

SUT | YMGEISIO

Ymgeiswyr Allanol

Mewngofnodwch i'n gwefan yn: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag

Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Presennol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recriwtio.

Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

Ymgeiswyr Mewnol

Mewngofnodwch i People XD/Core a llywio i 'swyddi gweigion cyfredol' i ddewis y swydd berthnasol. Sicrhewch fod pob adran o'r cais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

Pob Ymgeisydd

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recriwtio yn recriwtio@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn ymdrechu i helpu cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweiliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Gwiriadau Recriwtio Allanol

Bydd yr holl ymgeiswyr allanol yn destun y gwiriadau recriwtio canlynol cyn eu penodi:

- Gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gwiriadau hawl i weithio.
- Gwiriadau meddygol, iechyd a ffitrwydd.
- Gwiriadau trwydded yrru.
- Gwiriadau Tystlythyron.

Cod Moeseg Craidd CCPT

RHOI EIN CYMUNEDAU YN GYNTAF: Rydym yn blaenoriaethu lles y cyhoedd, y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.

UNIONDEB: Rydym yn gweithredu gydag uniondeb, gan gynnwys bod yn agored, yn onest ac yn gyson ym mhopeth a wnawn.

URDDAS A PHARCH: Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ar sail tystiolaeth, heb wahaniaethu na thuedd.

ARWEINYDDIAETH: Rydym i gyd yn fodolau rôl cadarnhaol, bob amser yn dangos hyblygrwydd ac arweinyddiaeth hydwyth. Rydym i gyd yn atebol am bopeth a wnawn ac yn herio pob ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safonau uchaf.

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD: Rydym yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth CAC yn barhaus o fewn GTADC a'r cymunedau ehangach yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn sefyll yn erbyn pob math o wahaniaethu, yn creu cyfle cyfartal, yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn meithrin cysylltiadau da ac yn dathlu gwahaniaeth.



Dyma'r sylfaen ar gyfer ein gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a bydd yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n groesawgar, yn oddefgar ac yn ddiogel, heb unrhyw le i ymddygiadau amhriodol a champau gweithredu sy'n bygwth, amharchu neu'n dychryn eraill

BUDDION

Gwyliau Blynyddol – Lwfans gwyliau blynyddol hael.

Rhaglen Cymorth i Weithwyr - Mae'r RhGG yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i weithwyr gael mynediad iddo pryd bynnag y bo angen.

Vivup – Darparwr buddion gweithwyr sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cynnig pentwr o fanteision ac arbedion iechyd a lles i'r holl staff ar draws nifer o frandiau mawr.

Mae rhai o fanteision y platfform hwn yn cynnwys:

- **Cynllun Seiclo i'r Gwaith**
- **Cynllun ceir Tusker**
- **Gostyngiad nwyddau i'r cartref a nwyddau electroneg**

Oriau Gwaith Hyblyg – Mae staff corfforaethol yn gallu gweithio oriau hyblyg. Gydag oriau craidd o 10yb – 12yp a 2yb – 3yp; Gallwch gwblhau balans eich oriau unrhyw bryd rhwng 7yb a 7yp.

Dysgu a Datblygu – Mae GTADC yn cydnabod bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant. Gyda Chanolfan Hyfforddi bwrpasol ym Mhorth Caerdydd a thimau hyfforddi arbenigol, mae digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu sgiliau newydd.

Campfa - Ble bynnag yr ydych wedi'ch lleoli fel gweithiwr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae mynediad i'n cyfleusterau campfa ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim.



Ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd - Mae ein Hymgyngorwyr Iechyd a Ffitrwydd yn monitro lefelau ffitrwydd staff gweithredol. Gallant hefyd gynnig cyngor iechyd a ffitrwydd i bob gweithiwr ar gais.

Elusen Diffoddwyr Tân - Gall pob gweithiwr, ynghyd â'u dibynyddion, fod yn fuddiolwyr yr elusen. Mae'r elusen yn darparu cymorth iechyd a lles i holl gymuned y Gwasanaeth Tân.

Parcio Ceir – Nid yw GTADC yn codi tâl am barcio yn unrhyw un o'i safleoedd.

Hyrwyddwyr Golau Glas Mind – Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i iechyd a lles, rydym yn cefnogi Rhaglen Golau Glas MIND. Mae'r rhaglen yn cynnig cymorth iechyd meddwl i weithwyr y gwasanaethau brys.

Iechyd Galwedigaethol - Nod yr Uned Iechyd Galwedigaethol yw cynyddu effeithlonrwydd iechyd a lles staff i'r eithaf a lleihau'r risgiau y mae staff yn agored iddynt o ganlyniad i arferion gwaith a'r amgylchedd.

Pensiwn – Mae staff cymorth yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion penodedig. Mae cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar eich cyflog.

Chwaraeon a Chymdeithasol – Mae ein hadran chwaraeon a chymdeithasol yn dod â gweithwyr ynghyd o bob adran. Mae ffotograffiaeth, sgïo, crwydro, seiclo, pêl-droed, rygbi, syrffio a golff yn rhai o'r diddordebau a rennir.

Cyrsiau Cymraeg – Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn cynnig mynediad i bob gweithiwr i gyrsiau Cymraeg ar ystod o lefelau i weddu i bob angen.

Hyderus o ran Anabledd – Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd ardystiedig





Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

South Wales Fire and Rescue Service

Recruitment & Retention Team
Fire Service Headquarters
Forest View Business Park
Llantrisant
CF72 8LX

Recruitment Line – 01443 232200
recruitment@southwales-fire.gov.uk



www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us

SCAN ME

